Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **25 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021**

**Trosolwg Polisi o'r OS:**

Mae'r Rheoliadau'n sicrhau bod y fframweithiau ymadael â'r UE ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a darparu gwasanaethau yn parhau i weithio'n effeithiol. Mae'r Rheoliadau yn gwneud mân ddiwygiadau i ddileu rhwymedigaeth anweithredol ar Reoleiddwyr ledled y DU i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gomisiwn yr UE. Mae hyn mewn perthynas â'r rhybuddion a wnaed o dan System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol (GFF) a oedd yn ofynnol cyn diwedd y Cyfnod Pontio.

Mae System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol yn cael ei defnyddio ar gyfer pob proffesiwn a reoleiddir. Fodd bynnag o dan gyfraith yr UE, defnyddiwyd y mecanwaith rhybuddio, a ddiwygir yn yr OS, mewn perthynas â chyfyngiadau ar yr arfer ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn proffesiynau penodol a reoleiddir sydd â goblygiadau i ddiogelwch cleifion a'r rhai sy'n ymwneud ag addysg pobl ifanc; gan gynnwys rhai proffesiynolion iechyd ac athrawon.

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

*Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019*

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro gwendidau mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r ffaith bod y DU wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n ymwneud â rhwymedigaethau a osodir ar reoleiddwyr y DU ynghylch y mecanwaith rhybuddio a ddefnyddir o dan System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol ar gyfer proffesiynau penodol a reoleiddir o dan gyfraith yr UE. Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-recognition-of-professional-qualifications-amendment-etc-dot-eu-exit-regulations-2021

## Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS yn effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

## Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

Nid yw'r OS yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer y gwaith cywiro. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Mae cydsynio ag OS sy'n berthnasol ledled y DU yn helpu i sicrhau un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurdeb a hygyrchedd yn ystod y cyfnod newid hwn. Yn yr amgylchiadau anarferol hyn, mae Llywodaeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.